Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Stonewall - polisïau hyrwyddo LGBTQ+

28 Ionawr 2022

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

*Other than Stonewall:*

1. *Which other lobby groups or representatives have you consulted in order to create policies promoting LGBTQ+ ideology?*
2. *How much do you (or did you) pay for those services rendered?*

*I would like this information for the following years: 2018-19, 2019-20 and 2020-21*

Fel corff cyhoeddus, mae gan Gomisiwn y Senedd ddyletswydd statudol i bennu amcanion cydraddoldeb. Roedd ymgynghoriad allanol o gymorth wrth ddatblygu'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Bumed Senedd. Er nad oes bellach gennym restr o'r holl sefydliadau y cysylltwyd â hwy yn 2016, cafodd yr arolwg ei rannu gydag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Stonewall Cymru a Diverse Cymru, ar gyfryngau cymdeithasol, ac yn ein rhaglen o ddigwyddiadau haf (Pride Cymru a Sparkle) i gasglu adborth ychwanegol. Ni wnaethom dalu unrhyw un i gyfrannu at yr ymgynghoriad.

Mae ein Rhwydwaith Cydraddoldeb yn y Gweithle LGBTQ+ yn helpu gyda'r gwaith o ddatblygu polisïau staff. Rydym yn ymgynghori â'r rhwydwaith fel rhan o'n Hasesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael cyngor ar sut y gallwn wneud ein polisïau a'n gweithdrefnau yn fwy cynhwysol i bobl LGBTQ+. Nid oes cost i'r ymgynghoriad hwn.

Yn gywir

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN